

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r Lleoliad: Canolfan Feddygol
Gogledd Llandaf

Dyddiad y gweithgarwch: 15 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 13 Hydref 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Feddygol Gogledd Llandaf fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 15 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y broses hon, gwnaethom adolygu polisiau allweddol mewn perthynas â diogelu staff a chleifion rhag COVID-19. Gwnaethom hefyd adolygu'r trefniadau sydd ar waith gan y gwasanaeth ar gyfer sicrhau, defnyddio a gwaredu cyfarpar diogelu personol yn briodol.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym yn ystod y pandemig fod y practis wedi cyfyngu ar nifer y cleifion a oedd yn dod i'r safle ar gyfer apwyntiadau, lle y bo'n bosibl. Rhoddwyd rhaglen ar waith a oedd yn galluogi cleifion i gyflwyno lluniau o anhwylderau a dogfennaeth drwy neges destun neu e-bost, ochr yn ochr â nifer o opsiynau ar gyfer ymgynghoriadau o bell, a galluogi clinigwyr i adolygu a derbyn tystiolaeth gan gleifion.

Esboniodd rheolwr y practis y broses ar gyfer cael mynediad i'r adeilad. Rheolwyd mynediad drwy system apwyntiadau ffôn llym, lle yr oedd cleifion yn cael eu hadolygu gan glinigydd cyn cael cynnig ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Nid oedd mynediad arall i'r adeilad. Roedd y staff yn gweithio gartref pan oeddent yn gallu, er mwyn lleihau nifer y bobl yn y practis. Ar ôl cytuno ar apwyntiad wyneb yn wyneb, roedd cleifion yn cael cyfarwyddiadau llym ar gyfer dod i'r practis, ac roedd asesiad risg hefyd yn cael ei gynnal gyda chleifion, a oedd yn cynnwys cadarnhad nad oedd ganddynt symptomau COVID-19.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyfredol, a oedd yn cynnwys hyfforddiant digonol i sicrhau defnydd priodol o Gyfarpar Diogelu Personol. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cael rhai problemau wrth gael gafael ar gyfarpar diogelu personol ar ddechrau'r pandemig o ganlyniad i ganllawiau a oedd yn newid yn gyflym, ond rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd inni fod hyn wedi cael ei unioni yn gyflym ac na fu unrhyw broblemau ers hynny. Roedd cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff yn yr adeilad, ac roedd rheolwr y practis o'r farn bod digon wrth gefn.

Dywedodd rheolwr y practis ei fod wedi adolygu ei asesiad risg amgylcheddol yn sgil COVID-19, ond ei fod yn teimlo bod y newidiadau strwythurol mawr a wnaed i'r practis yn 2015 wedi ei alluogi i ddilyn y trefniadau atal a rheoli heintiau llym sydd ar waith. Ymdrinnir â hyn ymhellach yn adran Amgylchedd yr adroddiad hwn.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y broses hon, gwnaethom gwestiynu'r practis am y ffordd maent yn gwneud yn siŵr bod yr holl gleifion yn cael mynediad diogel a phriodol i wasanaethau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod asesiad risg wedi'i ddiweddarau wedi cael ei gynnal i nodi anghenion penodol yn sgil pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym y gwnaed newidiadau o ganlyniad i'r asesiad risg hwn, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, archwiliadau amgylcheddol, trefniadau atal a rheoli heintiau, disgwyliaid staff a chyfarfodydd llesiant staff.

Dywedwyd wrthym fod galwadau yn cael eu brysbennu gan glinigydd, a bod y rhan fwyaf o apwyntiadau yn cael eu cynnal drwy delegynadledda a fideogynadledda. Os oedd angen ymgynghoriad wyneb yn wyneb, yna roedd cyfarwyddiadau llym ar gyfer dod i mewn i'r practis yn cael eu darparu i'r cleifion er mwyn sicrhau bod cyn lleied o bobl yn y practis â phosibl.

Pan oedd y pandemig ar ei waethaf, dywedwyd wrthym fod llawer o glinigau a gwasanaethau wedi'u lleihau yn sylweddol neu wedi dod i ben. Symudwyd rhai clinigau, megis clinigau anadlol lle roedd adolygiadau blynyddol yn cael eu cynnal, i delegynadledda neu fideogynadledda. Dywedwyd wrthym fod eraill, megis pigiadau B12, yn cael eu hadolygu fesul achos unigol ac roedd trefniadau amgen yn cael eu gwneud lle y bo'n briodol. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr apwyntiadau hyn yn cael eu hystyngiadau er mwyn rhoi digon o amser i ymdrin â rheswm y claf dros gael apwyntiad, cyfarch a thywys y claf i mewn i'r feddygfa, cydymffurfio â phrotocolau cyfarpar diogelu personol a glanhau'r ystafell.

Cawsom wybod bod system rhagrybuddio ar waith a oedd yn nodi cleifion a oedd yn gwarchod, neu gleifion ar y gronfa ddata clefydau cronig a allai fod yn hynod agored i niwed yn glinigol. Roedd hyn yn galluogi'r clinigydd i ystyried hyn wrth drafod trefniadau ymgynghori. Dywedwyd wrthym fod yr holl gleifion a oedd yn galw yn gallu siarad â chlinigydd mewn rhyw ffordd, felly nid oedd angen i staff anghlinigol brysbennu cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal ymweliadau â chartrefi ac ymweliadau â chartrefi gofal o hyd yn ôl yr angen. Eglurodd rheolwr y practis fod gan y staff asesiadau risg i sicrhau eu bod yn ddiogel i ymgymryd ag ymweliadau. Dywedwyd wrthym fod cyfarpar llawn yn cael ei ddarparu, gan gynnwys pecynnau cyfarpar diogelu personol. Roedd meddygon teulu yn gyfrifol am sicrhau bod pecynnau ymweliadau â chartrefi yn cael eu gwaredu yn unol â'r canllawiau. Roedd y Cynorthwydd Gofal Iechyd yn cymryd rheolaeth dros y rhain i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cynnwys yr holl eitemau perthnasol.

Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar yr holl staff i sicrhau eu bod yn ddiogel yn y practis, ac roedd trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer staff yr ystyrir eu bod mewn perygl.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y broses hon, gwnaethom adolygu polisiau rheoli heintiau, amserlenni glanhau a hyfforddiant staff. Gwnaethom hefyd gwestiynu'r lleoliad am y ffordd y mae'r newidiadau y mae wedi'u cyflwyno i wneud yn siŵr bod safonau rheoli heintiau priodol yn cael eu cynnal.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyfredol, ochr yn ochr â chanllawiau a gwybodaeth ychwanegol, er mwyn eu helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Mae'r holl staff wedi cael eu briffio ar ddefnydd priodol o gyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig gan staff a oedd yn arbenigo yn y broses hon.

Gwelsom dystiolaeth o'r contract glanhau ac archwiliadau gan y cwmni i sicrhau cydymffurfiaeth â'r contract.

Dywedwyd wrthym fod cleifion a oedd yn dod i'r practis yn cael cyfarwyddiadau cyn dod i'w hapwyntiad er mwyn atal cleifion rhag aros yn y practis ar yr un pryd. Roedd cleifion yr amheuir bod ganddynt salwch heintus yn cael eu hebrwng drwy'r fynedfa ochr i ystafell arwahanu a oedd wedi'i gwacáu er mwyn lleihau achosion o groes-halogi.

Dywedwyd wrthym y crëwyd bagiau achosion brys ar gyfer apwyntiadau yn y gymuned i sicrhau bod gan glinigwyr gyfarpar addas er mwyn ymgymryd ag ymweliadau â chartrefi. Unwaith yr oeddent wedi cael eu defnyddio, roedd yr eitemau o gyfarpar untro yn cael eu rhoi mewn bag priodol a'u gwaredu mewn biniau gwastraff clinigol yn y practis pan fyddai clinigydd yn dychwelyd.

Ni nodwyd unrhyw welliannau:

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC adolygu polisiau a gweithdrefnau ar gyfer argyfyngau pandemig yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd gwestiynau'r lleoliad am y ffordd y mae wedi addasu ei wasanaeth yn sgil pandemig COVID-19, sut mae'n rhyngweithio â gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a'i brosesau rheoli risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n effeithiol yn ystod y pandemig heb amharu braidd dim ar y gwasanaeth. Roedd hyn wedi golygu newid y diwylliant i weithio'n fwy hyblyg gyda'r staff i ateb heriau cyfrifoldebau teuluol a gofynion ynysu. Ar y pryd, roedd dau aelod o'r staff yn absennol oherwydd salwch.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym fod llai o gyfarfodydd staff wedi cael eu cynnal yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd y cyfarfodydd wedi parhau lle y bo'n bosibl. Roedd cofnodion ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn cael eu rhannu â'r staff yn dilyn pob cyfarfod i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael gwybodaeth am y canllawiau a pholisïau diweddaraf.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau clwstwr¹ ar gyfer y practis. Roedd cynllun parhad busnes y clwstwr yn cynnwys rhannu staff, adeiladau ac adnoddau cyffredinol yn ôl yr angen. Roedd y broses hon wedi cael ei defnyddio gan y clwstwr yn ystod y pandemig, ac roedd wedi gweithio'n llwyddiannus. Roedd y clwstwr yn cwrdd yn rheolaidd drwy ddulliau gweithio o bell, ac roedd yr aelodau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau gyda gofal eilaidd yn parhau, er bod y practis wedi wynebu heriau penodol o ran defnyddio gwasanaethau yn ystod y pandemig. Dywedodd y prif feddyg teulu wrthym fod gwasanaethau megis nyrsio ardal a gwasanaethau iechyd meddwl wedi bod o dan bwysau sylweddol, ac o ganlyniad roedd hyn yn cael effaith ar y gwasanaethau a oedd ar gael i gleifion. Dywedwyd wrthym fod meddygon teulu yn gweithio i ddarparu cymorth ychwanegol i sicrhau nad oedd cleifion yn cael eu rhoi mewn perygl.

Ni nodwyd unrhyw welliannau:

¹ Ystyr clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.